

FFEDERASIWN CLYBIAU FFERMWYR IFANC CYMRU



**PWYLLGOR RHYNGWLADOL
DYDD LLUN 20ain IONAWR, 2022
ZOOM 7.00yh**

COFNODION

CADEIRYDD: Miss Nerys Lewis

IS-GADEIRYDD: Miss Caitlin Harley

PRESENNOL: Nerys Lewis (Cadeirydd y Pwyllgor), Caitlin Harley (Is-Gadeirydd), Lowri Jones (Ceredigion), Cathrin Jones (Sir Gâr), Iestyn Owen (Sir Gâr), Leah Bevan (Morgannwg), Cerys Baker (Gwent), Lwsi Morgan (Maldwyn), Andrew Spencer (YFA) a Niall Evans (Cyn Gadeirydd/Ysgrifennydd Cofnodion)

HEFYD YN BRESENNOL:

Caryl Haf (Cadeirydd CFFI Cymru); Rhianwen Jones (Swyddog Cystadlaethau a Rhyngwladol), Hefin Evans (Is-Gadeirydd CFFI Cymru - rhan)

I/24/2022 CROESO A CHYFLWYNIADAU'R CADEIRYDD

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a gofyn i bawb gyflwyno eu hunain er mwyn y cofnodion.

I/25/2022 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuraidau am absenoldeb gan: Tomos Lewis (Sir Benfro), Sian Emberton (Maldwyn) a Elen Williams (Ieuenctid Cefn Gwlad Ewrop)

I/26/2022 I GADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a gafodd ei gynnal ar ddydd Llun 25ain Hydref 2021, eu dangos ar y sgrin. Cafodd y cofnodion eu arbrofi a'u arwyddo fel record wir a chywir.

Cynigyddr: Lwsi Morgan

Eilydd: Andy Spencer

I/27/2022 PWYNTIU GWEITHRED A MATERION YN CODI O'R COFNODION

Gweithred	Sylwadau
Pwynt gweithred 1: Cadarnhau trip Ynys Manaw fel taith yr haf. Rhianwen i hysbysu Ynys Manaw a'r teithwyr.	Wedi ei gwblhau
Pwynt gweithred 2: Blaendaliadau i'w talu am y daith Saffari De Affrica.	Yn dal i fynd ymlaen
Pwynt gweithred 3: Diweddar'r teithwyr i'r Ffindir na fydd y trip yn digwydd yn 2022.	Wedi ei gwblhau
Pwynt gweithred 4: Siarad gyda cyd-drefnydd yr UDA i gytuno rhestr gwesteio.	Wedi ei gwblhau
Pwynt gweithred 5: Cynllunio a rhyddhau y Rhaglen Rhyngwladol a threfnu cyfweiliadau i'w cynnal ar 9fed Ionawr 2022.	Wedi ei gwblhau
Pwynt gweithred 6: CFFI Cymri i edrych ar y gwledydd hyn a gweld os fydd teithiau yn bosibl.	Yn dal i fynd ymlaen

Nid oedd unrhyw fater yn codi o'r cofnodion.

I/28/2022 GOHEBIAETH

Nid oedd unrhyw ohebiaeth wedi ei dderbyn.

I/29/2022 RHAGLEN RHYNGWLADOL 2022

- Mae Ynys Manaw wedi cael eu cysylltu ynglyn a'r trip sydd i ddod ac maent yn hapus gyda'r gwesteio yr haf yma.
- `Does dim blaen-daliadau wedi eu cael hyd yn hyn am y trip Saffari. O'r drafodaeth gwelwyd y byddai blaendal yn angenrheidiol er mwyn archebu'r hediad a chadarnhau'r dyddiadau. Trafododd y pwyllgor y mater a theimlwyd mae yn awr oedd yr amser gorau i gychwyn edrych at anfonebu aelodau i gael pethau i symud. Mae Lwsi a Niall wedi cael eu dewis i deithio ar y trip ac yn cytuno nad oes dim amser da i ddanfôn allan yr anfoneb ond mae'r ddau yn hapus i dalu gyda'r amodau presennol. Cynigodd Niall i drafod gwerth y blaendal gyda Contiki a gweithio allan gwerth llawn y blaendal i'w basio ymlaen i'r trafaelwyr a gafodd eu dewis yn lle bod CFFI Cymru yn cymryd y risg.

- Nodwyd fod 2 aelod wedi ymgeisio i drafaelio ar y saffari yn dilyn agoriad y Rhaglen Rhyngwladol 2022. Teimlai'r pwyllgor y dylai'r ddau aelod hyn gael ymweliad a chael cyfle cyntaf i deithio gan eu bod wedi rhoi'r ymdrech i ymgeisio yn y broses ddewis gwreiddiol.
- Cytunwyd y dylai'r ffi weinyddol o £40 gael ei anfonebu i'r holl deithwyr a gafodd eu dewis.
- Mae'r aelodau a gafodd eu dewis i deithio i'r Ffindir wedi cael eu hysbysu na fydd y daith yn digwydd yn 2022.
- Ar ol siarad gyda cyd-drefnydd cyfnewidfa'r UDA, cynigwyd i ni siarad gyda Ffermwyr Ifanc Gogledd Iwerddon a Dyfnaint ynglyn a gwesteio eleni ac yn y blynyddoedd i ddod.
- Fe fydd CFFI Cymru yn edrych i westeio 1 aelod o UDA eleni i gael profi sut orau i westeio dros amser hirach. Mae aelodau o Geredigion wedi cynnig ein bod yn darparu'r cyd-drefnydd yn UDA gyda beth allwn gynnig fel mudiad. Fe fydd hyn yn caniatáu i ddisgwyliadau gael eu rheoli cyn i'r gyfnewidfa gymryd lle.
- Ar ol asesu y strwythyr gwesteio bresenol, nododd aelodau'r pwyllgor fod yna angen i adolygu sut rydym yn gwesteio a sut allwn gefnogi'r teuluoedd sydd yn gwesteio. Un cynnig oedd y byddai pob un sydd yn cyfnewid yn cael eu gwesteio yn yr un ardal fel y byddai'r llwyth gwaith o westeio yn cael ei rannu yn fwy cyfartal.
- Cytunodd y pwyllgor fod yna angen i weithredu polisiau a phrotocolau ynglyn a gwesteio yn ystod Covid ac heb Covid. Nodwyd hefyd y byddai efallai rhai problemau gyda gwesteio a dod o hyd i westeiwyr eleni a dylem fod wedi paratoi am hyn.
- Er mwyn addasu'r cyfnewidfaedd i'r aelodau a fydd yn aros gyda aelodau CFFI Cymru, cynigodd y pwyllgor y byddai bywgraffiad o bob un yn cael ei ddanfôn gan y cymar fudiad mewn digon o amser i gael paratoad addas.
- Mae'r Alban wedi cynnig y byddant yn edrych i westeio aelodau o'r 5 cenedl ac y edrych i ddanfôn aelodau atom dros y Sioe Frenhinol.

Ceisiadau 2022

- Cyfanswm o 6 wedi ymgeisio am y Rhaglen Rhyngwladol 2022.

Mae y ceisiadau wedi'u rhannu fel a ddilyn:

2 – saffari

1 – Rali Ieuentid Cefngwlad Ewrop

2 - Ysgoloriaeth / AGRII

1 – Sialens Hwyllo

- Cytunodd y pwyllgor y dylai'r rhai a dreuliodd amser i ymgeisio yn y rownd gyntaf gael eu cyfweliadau yn gyntaf a chael y cyfle cyntaf cyn siarad gyda unrhyw un arall.
- Yn dilyn yr ychydig geisiadau a gafwyd am raglen 2022, awgrymodd Cerys y dylid ail-hysbysebu'r rhaglen decharau mis Chwefror.

Awgrymodd Iestyn i edrych yn ôl ar geisiadau blaenorol a chysylltu gyda aelodau a oedd wedi nodi teithiau gyda llefydd sbar fel eu ail neu drydydd dewis er mwyn llenwi gweddill y llefydd oedd ar gael.

- Ar ôl ail edrych ar rhaglen 2022, cytunodd y pwyllgor ei fod yn well i ganolbwyntio ar y teithiau'n mynd allan eleni cyn edrych ar deithiau'r dyfodol. Fe edrychir ar deithiau 2023 yn y dyfodol.

Gweithred 1: CFFI Cymru i gysylltu gyda Contiki i weithio allan y blaendal angenrheidiol i'r trip Safari a danfon anfoneb at y teithwyr a ddewiswyd.

Gweithred 2: CFFI Cymru i ddanfon anfoneb i'r teithwyr a gafodd eu dewis am £40 fel tâl gweinyddol.

Gweithred 3: I drefnu cyfweiliadau gyda'r 6 ymgeisydd a chysylltu gyda'r ymgeiswyr blaenorol i lenwi'r bylchau fydd ar gael.

Gweithred 4: I greu protocolau Covid.

I/30/2022 EITEMAU AGENDA & DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nid oedd unrhyw eitem agenda wedi ei dderbyn gan y pwyllgor. Y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar ddydd Llun 28ain Mawrth 2022.

I/31/2022 Unrhyw fusnes arall

Gofynnodd Iestyn pryd oedd trip i Ynys Manaw yn digwydd. Cadarnhawyd y byddem yn bwriadu ei gynnal yn ystod penwythnos sioe Ynys Manaw.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall, datganwyd y cyfarfod ar gau am 19:55.

Llofnod: _____ Dyddiedig: _____

GWEITHRED	SYLWADAU
Gweithred 1: CFFI Cymru i gysylltu gyda Contiki i gyfrifo'r blaendal angenrheidiol i'r trip Saffari a danfon anfoneb i'r teithwyr a gafodd eu dewis.	Wedi ei gwblhau
Gweithred 2: CFFI Cymru i ddanfon anfoneb am £40 fel tal gweinyddol i'r teithwyr a gafodd eu dewis.	Wedi ei gwblhau
Gweithred 3: Trefnu cyfweiliadau i'r 6 ymgeisydd a chysylltu gyda'r ymgeiswyr blaenorol i lenwi unrhyw fylchau fydd ar gael.	Wedi ei gwblhau
Gweithred 4: I greu protocolau Covid.	Wedi ei gwblhau